



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dydd/Dyddiad Dydd Iau 27^{ain} o Orffennaf
2017

Amser: 10:30yb i 12:30

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell
SCC002

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
RB	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
LJ	Prif Gwnstabl Cynorthwyol, (PGC), HDP
AL	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, HDP
MD	Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned, SCHTh
MS	Ditectif Brif Arolygydd - Powys
PJ	Prif Arolygydd Dros Dro – Dalfeydd

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

BS	Ymgynghorydd Annibynnol
KR	Ymgynghorydd Annibynnol
DM	Ymgynghorydd Annibynnol
JL	Ditectif Arolygydd Gogledd Powys
JC	Uwch-arolygydd URS Powys
RI	Prif Arolygydd – Partneriaeth Powys
CP	Prif Uwch-arolygydd – Plismona Lifrog
CB	Swyddog Ymgysylltu - SCHTh

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol:-

Rhif y cam gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Perchennog	Statws ar yr 27^{ain} o Orffennaf 2017
1	MB i anfon manylion cyswllt Melissa at yr aelodau.	MB	Cwblhawyd
2	EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y dudalen troseddau casineb a hefyd bod manylion Swyddogion/SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y dudalen we newydd.	EN	Parhaus – Nodwyd yn y cyfarfod bod y wefan newydd yn dal i gael ei datblygu
3	Sicrhau bod y Timau Plismona Bro yn rhoi rhif symudol difrys y gwasanaeth negeseuon testun ar gyfer pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu sydd â nam ar y lleferydd ar ddogfennau/taflenni sy'n cael eu hanfon allan at aelodau o'r cyhoedd. Adborth gan NM i'w fwydo i'r arolwg hygyrchedd.	EN	Parhaus – Nodwyd yn y cyfarfod y bydd y defnydd o'r system negeseuon testun yn cael ei arolygu fel rhan o'r arolwg argaeledd
4	EN ac AL i weithio gyda PS i sicrhau bod tudalen Iaith Arwyddion Prydain HDP yn cynnwys y wybodaeth berthnasol a'i bod yn cael ei hehangu lle bo angen.	EN	Parhaus - Nodwyd yn y cyfarfod bod y wefan newydd yn dal i gael ei datblygu
5	EN i ystyried y posibilrwydd bod negeseuon e-bost sy'n nodi bod rhywun allan o'r swyddfa'n cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am argyfwng h.y. gwybodaeth 999.	EN/AL	Parhaus
6	EN i anfon dolen gyswllt ar gyfer fersiwn BETA o wefan newydd HDP ar gyfer sylwadau pan fydd yn barod.	EN	Parhaus - Nodwyd yn y cyfarfod bod y wefan newydd yn dal i gael ei datblygu
7	Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol annibynnol (GYA) i roi unrhyw adborth sydd ganddynt ynglŷn â'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb o Gamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff.	Aelodau GYA	Cwblhawyd
8	CD i ddiwygio'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb ac i ysgrifennu'r talfyriad TSU yn llawn.	CD	Cwblhawyd

9	CD i adolygu'r polisi Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff mewn perthynas ag effaith y camerâu hynny ar unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant.	CD	Cwblhawyd
10	Pob aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ystyried pa hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac i ddweud wrth AL er mwyn adnabod cyfleoedd.	Aelodau GYA /AL	Cwblhawyd - Cynigiodd NH Hyfforddiant i Gadeiryddion a thaith o gwmpas y Ganolfan Gyfathrebu i ddeall sut y maent yn gweithredu.
11	Ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fel rhan o'r adolygiad teledu cylch cyfyng.	MD	Parhaus – Ymgynghorir â'r Grŵp yn ei dro
12	Y PGC i wneud ymholiadau am y digwyddiad a amlygwyd, ac i roi diweddariad ynglŷn â'r canlyniad i PS.	PGC	Cwblhawyd
13	AL i gylchredeg adroddiad diweddarau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer sylwadau'r aelodau.	AL	Cwblhawyd - AL i anfon adroddiad diweddarau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol eto drwy e-bost

Gofynnodd y PGC I EM fynychu cyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol er mwyn rhoi diweddariad am dudalen we HDP.

Cam gweithredu:- EM i gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol er mwyn rhoi diweddariad am y cynnydd a wneir mewn perthynas â thudalen we ADPP.

Diolchodd y PGC i PS am ddod â'r digwyddiad a godwyd yn y cyfarfod diwethaf i'w sylw, ac ymddiheurodd unwaith eto am lefel y gwasanaeth a ddarparwyd. Cadarnhaodd PGC James fod yr ymchwiliad wedi cael sylw llawn a bod nifer o feysydd wedi cael eu cyfeirio i'r Adran Safonau Proffesiynol. Cadarnhawyd bod swyddogion wedi cael eu cynghori, a bod y dioddefydd erbyn hyn yn cael cefnogaeth ddigonol.

Nododd PGC James fod angen amlwg i sicrhau bod yr Heddlu'n cyfathrebu'n effeithiol â phob cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol ddulliau o gysylltu

â'r Heddlu. Bydd yr Uned Cyfathrebu Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn sicrhau bod pob cymuned yn gwybod ac yn deall sut i gysylltu â'r heddlu.

Dyweddodd PS fod y cleient wedi cael ymweliad gan yr heddlu a hefyd wedi cael ymddiheuriad gan yr Heddlu, yn ogystal â diweddariad mewn perthynas â'r digwyddiad. Diolchodd PS i'r PGC am yr help a'r cymorth a roddwyd.

Cynghorodd PGC James y grŵp y dylid dwyn sylw'r Heddlu at faterion o'r fath cyn gynted ag sy'n bosib, a bod dim rhaid aros am gyfarfod y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i godi pryderon o'r fath. Nodwyd hyn gan y grŵp.

Wrth drafod hygrychedd yr Heddlu, cododd JJ bryder nad yw pobl yn adrodd am bethau oherwydd cost galwadau 101. Nododd PGC James fod y gyfradd ar gyfer y galwadau'n cael ei gosod yn genedlaethol, ac felly ni fyddai'n bosib i HDP wneud dim ynghylch y mater hwn fel heddlu.

3. Hygrychedd ein Hadran Safonau Proffesiynol

Edrychodd y grŵp ar y taflenni a'r posteri newydd mewn perthynas â sut i gyflwyno cwyn i'r heddlu. Eglurodd AL fod y taflenni wedi cael eu creu gan yr Adran Safonau Proffesiynol, ac mai bwriad y taflenni yw rhoi gwybod i'r cyhoedd sut i gyflwyno cwyn i'r heddlu. Gofynnodd AL am adborth am y daflen/poster, yn enwedig mewn perthynas â hygrychedd yr adran o ran cyflwyno cwynion.

Roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr aelodau'n teimlo y byddai taflen yn annhebygol o ysgogi pobl i gyflwyno cwyn – os oeddent yn dymuno cyflwyno cwyn, byddent yn dod o hyd i ffordd o wneud hynny, byddai taflen yn annhebygol o wneud gwahaniaeth;
- Ystyriwyd bod y daflen wedi cael ei llunio mewn ffordd negyddol iawn - mae angen dweud wrth bobl mai sefydliad sy'n dysgu yw'r Heddlu, a dylid annog pobl i gefnogi hynny;
- Gofynnodd yr aelodau sut mae pobl yn cael eu hannog i rannu profiadau da gyda'r Heddlu. Nid oedd yn glir pam fod y daflen yn canolbwyntio ar negeseuon negyddol yn unig;
- Cafwyd trafodaeth am faterion corfforaethol, ac roedd yr aelodau'n teimlo bod diffyg cysylltiad rhwng yr adrannau wrth lunio'r taflenni;
- Teimlwyd bod y daflen yn ticio blwch, ond nad yw mewn gwirionedd yn cyrraedd y bobl y mae'r Heddlu angen siarad â nhw. Codwyd cwestiwn am sut y mae'r Heddlu'n ymgysylltu â chymunedau er mwyn cynyddu eu hyder wrth gyflwyno cwyn?
- Ystyriwyd bod y wybodaeth yn ddryslyd – nid oedd y gwahaniaeth rhwng PSD a PSB wedi cael ei ddiffinio, ac roedd anghysondeb yn y daflen o ran â phwy y dylid cysylltu;
- Nid oedd yn glir sut y bwriadwyd defnyddio'r daflen hon i oresgyn rhwystrau'r cymunedau a oedd yn ddihyder ynglŷn â chysylltu â'r Heddlu;
- Ni ddarparwyd manylion cyswllt i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw allu cyflwyno cwyn;

- Nododd un aelod fod taflen a gynhyrchwyd ychydig amser yn ôl yn well o lawer, gan ei bod yn egluro lefel y cwyn y gellid ei chyflwyno;
- Codwyd cwestiwn ynghylch perthnasedd y llun. Roedd yr aelodau wedi drysu ynghylch sut yr oedd yn berthnasol i'r cynnwys;
- Gofynnodd aelod gwestiwn ynghylch pa arweiniad a gynhyrchwyd i staff a swyddogion i'w hysbysu am y broses wrth i gŵyn cael ei chyflwyno yn eu herbyn - gan gynnwys pa gefnogaeth oedd ar gael;
- Ystyriwyd bod y cyfeiriad e-bost yn rhy hir – byddai'n hawdd i bobl wneud camgymeriadau;
- Ystyriwyd bod angen symleiddio'r daflen ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu;
- Cafwyd pryder cyffredinol ymysg yr aelodau na fyddai pobl yn adrodd am ddigwyddiadau rhag ofn y byddent ond yn cael eu trosglwyddo o adran i adran;
- Nodwyd y byddai gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain yn gymorth i aelodau byddar wrth iddynt wneud cyswllt;
- Nodwyd bod rhwystrau o ran iaith a dyslecsia'n codi'n aml, a bod angen mynd i'r afael â'r rhain. Byddai hyn hefyd yn ddefnyddiol wrth ddeall diwylliannau gwahanol;
- Awgrymodd yr aelodau y gallai'r Heddlu ddefnyddio Canolfannau Cynghori, Cymorth i Ferched a'r amrywiol wasanaethau iechyd meddwl i eiriol ar ran pobl sydd eisiau cyflwyno cwyn;
- Gellid defnyddio SCCH i ledaenu'r neges o fewn y cymunedau;
- Beirniadwyd yr Adran Safonau Proffesiynol am ymgynghori ar ôl i'r taflenni gael eu printio a'u dosbarthu yn hytrach na chyn i hynny ddigwydd. Ystyriwyd nad oedd yr ymgynghoriad yn wir ymgynghoriad felly, a'i bod yn wastraff arian;
- Gofynnodd aelod ar gyfer pwy oedd y daflen mewn gwirionedd? Nid oes ganddo gysylltiad â'r heddlu fel arfer, felly sut rydym yn cyfleu hyn yn effeithiol i bobl sy'n debyg iddo fe?
- Un awgrym oedd y gellid creu cerdyn bach y gallai swyddogion ei roi i bobl ar ôl unrhyw ymgysylltiad â nhw – mae Amanda wedi gwneud rhywbeth tebyg ar gyfer derbynebau stopio a chwilio.

Dyweddodd PS fod pobl sy'n fyddar yn gyffredinol yn wylidwrus am gyflwyno cwyn i'r heddlu, rhag ofn iddynt greu problem i'w hunain. Awgrymodd PS y dylid sicrhau bod yr Heddlu'n rhoi'r wybodaeth i'r bobl hynny sydd efallai heb fod â chysylltiad gyda'r heddlu, gan sicrhau eu bod yn gwybod beth mae'r heddlu'n ei wneud, sut y dylent gael eu trin a sut i gyflwyno cwyn.

Awgrymodd NC ei bod hi'n bwysig ystyried ieithoedd eraill; gallai camddealltwriaeth o ran cyfathrebu oherwydd diffyg dealltwriaeth achosi rhwystredigaeth.

Eglurodd MD broses gwyno Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i'r grŵp.

Eglurodd MS fod proses gwyno'r heddlu'n dryloyw a bod pob cwyn yn cael ei hystyried o ddifri, ac ymdrinnir â hi yn ôl ei rhinweddau. Dywedodd PJ bod y goruchwylwyr yn trafod y cwynion a chadarnhaodd mai proses agored a thryloyw ydyw a bod gwersi'n cael eu dysgu drwyddi.

Dyweddodd y PGC wrth y grŵp y dylai pob taflen/poster fynd drwy ein hadran cyfathrebu corfforaethol er mwyn sicrhau bod y taflenni/posteri'n gorfforaethol.

Gofynnodd NH i'r cofnodion nodi ei phryder fod pwysau'r arolwg a therfynau amser yn golygu bod gwaith yn cael ei gyflawni heb yr ystyriaeth na'r ymgynghori priodol. Nid oedd yn ystyried bod hyn yn iawn.

Cam gweithredu;-Y PGC i sicrhau bod y prosesau mewn lle i sicrhau bod pawb yn ymwybodol y dylai pob taflen/poster ac ati fynd drwy'r Uned Cyfathrebu Corfforaethol i sicrhau hunaniaeth gorfforaethol ac i sicrhau hefyd fod y wybodaeth gywir o ran cyfathrebu'n mynd allan i'n cymunedau.

Cam gweithredu: - Bydd y PGC yn sicrhau bod y taflenni Adran Safonau Proffesiynol yn cael eu hail-ysgrifennu yn unol â'r adborth a gafwyd gan y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

4. Cyflwyniad i'r Prif Arolygydd Paul Jones – Dalfeydd

Cyflwynodd PJ ei hun i'r grŵp. Esboniodd i'r grŵp mai ychydig iawn y mae'r cyhoedd yn gwybod am y broses gadwraethol a'r broses cyfiawnder troseddol a bod yr Heddlu felly'n ystyried cynyddu tryloywder ynghylch y broses a chael y wybodaeth allan i'r cyhoedd.

Rhoddwyd eglurhad byr o'r prosesau cadwraeth i'r grŵp.

Gofynnodd PJ am farn y grŵp ynghylch pa ddata yr hoffai'r cyhoedd wybod amdano a chafwyd trafodaeth wedyn. Cadarnhawyd bod AHEM wedi gofyn i'r Heddlu gyhoeddi data o'r fath er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch y prosesau cadwraeth.

Cynigiwyd cyfle i'r aelodau fynychu dalfa gydag Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa.

Dywedodd PJ fod asesiad effaith cydraddoldeb wedi cael ei gynnal yn Aberhonddu yn dilyn ymweliad gan y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, a bydd yr un peth yn digwydd hefyd ym mhob gorsaf sydd â dalfa yn y dyfodol agos.

Cafwyd trafodaeth wedyn am oedolion cymwys yn mynychu dalfeydd i gynorthwyo pobl sydd angen cefnogaeth. Dywedodd DT y dylai pobl sydd wedi cael mwy nag un cysylltiad gyda'r heddlu, gael eu hannog i gyflwyno datganiadau ymlaen llaw o ran pwy fyddai'r oedolyn mwyaf cymwys ar eu cyfer.

Cododd NH bryder ynghylch oedolion cymwys na fyddai, efallai, yn addas ar gyfer y rôl. Dywedodd PJ bod yn rhaid i ringyll y ddalfa fod yn fodlon bod yr oedolyn cymwys yn gallu deall y broses ac yn gallu hwyluso'r hyn sy'n digwydd i'r unigolyn. Dyma yw rôl yr oedolyn cymwys, yn ogystal â sicrhau bod yr hawliau cyfreithiol i gyd yn cael eu rhoi.

Ar ôl trafod, awgrymodd y grŵp y dylid cyhoeddi data o'r dalfeydd am y canlynol:-

- Pobl sydd ag anawsterau dysgu
- Pobl sy'n eu hystyried eu hunain ar y sbectrwm awtistig
- Y nifer o famieithoedd sy'n dod drwy'r dalfeydd
- Nodi grwpiau lleiafrifol/cenedligrwydd

Cododd NC bryder ynghylch rhwystrau ieithyddol. Dywedodd PS fod cyfieithwyr yn cael eu defnyddio pan fydd rhwystrau ieithyddol yn codi.

Eglurodd PJ rôl yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Maent yno er mwyn craffu'r broses gadwraethol. Mae eu hymweliadau'n ddirybudd. Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a sut y meant yn cael eu recriwtio.

Codwyd cwestiwn ynghylch amrywiaeth ymysg Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ac a oeddent yn cynrychioli eu cymunedau. Cadarnhaodd MD nad oeddent yn gynrychiadol o ran oedran yn bendant, ond dywedodd ei bod yn ansicr o ran y nodweddion gwarchoddedig eraill.

Cam gweithredu;-MD i roi adborth i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ynghylch a yw'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn gynrychiadol o'n cymunedau, ac os nad ydynt, pa gamau gweithredu a fyddai'n digwydd i sicrhau amrywiaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Gofynnodd DT beth oedd AHEM yn gobeithio cyflawni o gael y data a gasglwyd. Dywedodd PS yr hoffent gael mwy o dryloywder er mwyn codi ffydd.

Cam gweithredu: - PJ i ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i gael sylwadau terfynol cyn cyhoeddi data o'r dalfeydd.

5. Gweithredu Cadarnhaol o fewn Recriwtio

Eglurodd AL rôl y swyddog gweithredu cadarnhaol, a bod yr unigolyn yn rhoi ystyriaeth benodol i recriwtio ar hyn o bryd. Bydd y swyddog gweithredu cadarnhaol yn edrych ar sut y gallwn ddenu gweithlu sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd, tueddfryd rhywiol, hunaniaeth rhyw ac anabledau. Eglurwyd bod HDP yn gofyn am syniadau am sut i ddenu pobl i ymgeisio am swyddi gyda'r Heddlu. Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch gofynion a dethol.

Awgrymodd NC bod angen ystyried yr unigolyn, ac a fyddai'n gallu gwneud y swydd. Awgrymodd DT y gellid newid y meini prawf, er enghraifft ar gyfer cael yr unigolyn a fyddai'n elwa fwyaf o'r swydd, neu'r unigolyn a allai roi'r mwyaf i'r swydd benodol hon. Ystyriodd DT, os byddai'r meini prawf ar gyfer recriwtio'n newid yna byddai'r math o gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn i'r unigolyn yn wahanol, ac o ganlyniad, byddai'r math o bobl a fyddai'n cael eu recriwtio'n wahanol.

Awgrymodd RB fod iaith y swydd ddisgrifiad yn rhy gymhleth. Mae angen defnyddio Cymraeg Clir/Plain English i sicrhau fod pob ymgeisydd yn gallu ei deall.

Dywedodd MS bod swyddogion nawr yn cael hyfforddiant ynghylch rhagfarnau nad ydynt yn ymwybodol ohonynt, er mwy sicrhau tegwch o ran y broses gyfweld.

Dyweddodd PS fod pobl fyddar yn dod ar draws rhwystrau wrth geisio am swyddi, a bod canfyddiad nad oedd rhai sefydliadau eisiau cyflogi unigolion er bod ganddynt o bosib brofiad o weithio o fewn y rôl honno.

6. Diweddariad o gyfarfodydd eraill

Rhoddwyd diweddariad o'r cyfarfodydd niferus eraill yr oedd aelodau wedi eu mynychu, y tu hwnt i gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Cafwyd diweddariad yn dilyn ymweliad aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol â Gorsaf Porth Tywyn. Roedd NH hefyd wedi cyfarfod â PGC James yn dilyn y digwyddiadau diweddar gan derfysgwyr. Rhoddodd NC adborth o safbwynt annibynnol gan ddweud ei bod hi'n hapus gyda'r ffordd roedd yr heddlu'n ymateb i ddigwyddiadau, a'i bod yn teimlo bod y dull yn gymesur â'r hyn a oedd yn cael ei drin.

Y Sioe Deithiol Iechyd Meddwl

Canmolodd DT Carina Giannuzzi ac Angharad Lewis ar eu gwaith mewn perthynas â'r Sioe Deithiol Iechyd Meddwl.

Mynegodd DT bryder nad oedd digon o uwch swyddogion yn mynychu digwyddiadau o'r fath.

Dyweddodd DT fod swyddogion wedi ymddangos a chyflwyno eu profiadau personol am sut roeddent wedi ymdopi â thrawma yn eu bywydau. Mae hyn yn dod â rhywbeth arbennig iawn i'r sefydliad hwn, a dylent gael eu cymeradwyo am y gwaith hwn. Ystyriwyd ei fod yn waith eithriadol.

Brysbennu Iechyd Meddwl

Cododd DT bryder y bydd brysbennu Iechyd Meddwl yn dod i ben eleni a bydd bwllch rhwng agor y gwasanaeth newydd a chau'r gwasanaeth brysbennu. Yn ei le, bydd y tîm datrys argyfyngau yn y cartref a fydd yn cynnig mynediad uniongyrchol 24/7 i swyddogion a staff drwy linell ffôn ddynodedig.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Problemau Cyrchu Varonis

Adroddodd y grŵp am broblem ynghylch cyrchu Varonis. Dywedodd AL y bydd hi'n adrodd am yr anawsterau wrth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg.

Cam gweithredu:-AL i gysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg i drafod materion ynghylch cyrchu Varonis.

Tatŵs

Ceisiodd AL farn y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol mewn perthynas â pholisi tatŵs yr Heddlu, a oedd yn cael ei adolygu ar y pryd. Eglurodd AL mai'r polisi cyfredol ynghylch Tatŵs yw na ddylai tatŵs gweladwy fod gan bobl sy'n ymuno â'r Heddlu, a bod yn rhaid i'r bobl sydd eisoes yn cael eu cyflogi orchuddio eu tatŵs yn ystod oriau gwaith. Gofynnodd AL am farn aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ynghylch a ddylid caniatáu tatŵs gweladwy.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a yw tatŵs yn effeithio ar ganfyddiad yr unigolyn am swyddog neu aelod o staff. Awgrymodd DT fod y polisi presennol yn wahaniaethol. Awgrymodd NH na ddylid caniatáu rhai tatŵs penodol, fel y rhai sy'n cynnwys rhegfeydd neu ddelweddau amhriodol. Awgrymodd DT y gall tatŵs fod yn gadarnhaol wrth greu tir cyffredin wrth weithio gyda phobl ifanc. Efallai byddai pobl ifanc yn credu ei bod hi'n haws mynd at swyddog sydd â thatŵ, a bod tatŵs yn fater sy'n ymwneud â rheoli yn hytrach nag yn fater sy'n ymwneud â recriwtio.

Cododd NC bryderon ynghylch y ffaith bod y polisi'n caniatáu i unigolion sydd â thatŵs gael eu hystrydebu. Nododd NH hefyd mai lleiafrif yw'r bobl sydd heb datŵs erbyn hyn. Nododd PS hefyd fod tatŵs weithiau yn rhan o ddiwylliant unigolyn.

Awgrymodd DT fod y mater hwn yn fwy perthnasol i reoli yn hytrach na recriwtio. Ystyriwyd y dylai'r fordd y mae unigolyn yn edrych h.y. o ran ymddangosiad, fod yn fwy perthnasol na bod â thatŵ neu beidio.

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Y 26^{ain} o Hydref, 2017 ym Mhencadlys yr Heddlu, Ystafell SCC002 am 10:30 yb

9. Crynodeb o'r camau gweithredu

Rhif y cam gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Perchennog
1	EM i gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac i roi diweddariad am y cynnydd a wneir mewn perthynas â gwefan ADPP	MB
2	Y PGC i sicrhau bod prosesau mewn lle i sicrhau y bydd pawb yn ymwybodol y dylai taflenni/posteri ac ati i gyd fynd drwy'r Uned Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn sicrhau hunaniaeth gorfforaethol a sicrhau bod y wybodaeth gyfathrebu gywir yn mynd allan i'n cymunedau.	PGC
3	Bydd y PGC yn sicrhau bod taflenni'r Adran Safonau Proffesiynol yn cael eu hail-ysgrifennu yn unol ag adborth gan y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.	PGC
4	MD i roi adborth i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ynghylch a yw'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn gynrychiadol o'n cymunedau, ac os nad ydynt, pa gamau gweithredu a fyddai'n digwydd i sicrhau amrywiaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.	MD

5	PJ i ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol cyn cyhoeddi data o'r dalfeydd ar gyfer sylwadau terfynol.	PJ
6	AL i gysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg i drafod materion cyrchu Varonis.	AL